

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Cyffredinol Glangwili / Uned Triniaeth

Ddydd Bediatrig a Ward Cilgerran,

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 4 - 5 Mawrth 2020

Dyddiad cyhoeddi: 07 Awst 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	19
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	30
4.	Beth nesaf?	37
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	38
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	39
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	41
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	42

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i dylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Cyffredinol Glangwili sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 4 a 5 Mawrth 2020. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig
- Ward Cilgerran
- Uned Gofal Dibyniaeth Uchel i Blant

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau y gellir cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion a'u rhieni/gofalwyr bob amser.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion a'u rhieni/gofalwyr wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a gawsant
- Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion
- Trefniadau da ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau clinigol a'u rheoli
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn eu rolau
- Amgylchedd gwaith lle mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cydweithio'n dda yn ôl y sôn.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai o ardaloedd ôl-troed y wardiau sy'n cael effaith negyddol ar gynnal preifatrwydd y cleifion
- Cyfathrebu â'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth gyson a chlir am eu triniaeth a'u gofal
- Sut y gellir diweddarau a theilwra'r amgylchedd yn yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig i blant
- Bod aelodau gofynnol o staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân lefel dau cyfredol
- Bod adolygiad yn cael ei gynnal o ddigonolrwydd y sianelau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Cyffredinol Glangwili wedi'i leoli yng Nghaerfyrddin yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n rhan o'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y bwrdd iechyd). Mae'r bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth o tua 384,000 ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Mae'r Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig yn wasanaeth 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos fel rhan o'r gwasanaeth pediatrig aciwt yn y Gyfarwyddiaeth Menywod a Phlant. Mae'r uned wedi cael ei sefydlu er mwyn asesu a thrin plant a phobl ifanc rhwng 0 a 16 oed yn gyflym mewn amgylchedd pediatrig penodol. Gall y rhai sydd dan ofal meddyg ymgynghorol pediatrig fod yn hŷn nag 16 oed. Mae'r uned yn derbyn plant a atgyfeirir fel achosion brys gan feddyg teulu, bydwaig neu'r adran achosion brys. Ar ôl iddynt gael eu hasesu, gall y plant neu'r bobl ifanc gael eu derbyn wedyn i Ward Cilgerran neu eu hanfon adref. Mae'r gwasanaeth yn asesu ac yn sefydlogi pob derbyniad brys pediatrig cyffredinol, ac yn rhoi darpariaeth ddewisol wedi'i threfnu ar gyfer adolygiadau, cleifion allanol ac achosion dydd.

Mae Ward Cilgerran, sy'n cynnwys 24 o welyau, yn gofalu am blant o oedran geni hyd at 16 oed. Weithiau, bydd plant dros 16 oed yn cael eu gweld os ydynt yn dal i fod dan ofal meddyg ymgynghorol pediatrig neu'n hysbys i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae Ward Cilgerran yn darparu gofal i blant sydd ag amrywiaeth o anghenion gofal iechyd, o dderbyniadau meddygol aciwt i blant sydd ag anghenion cronig cymhleth. Mae'r ward hefyd yn darparu ar gyfer derbyniadau meddygol a llawfeddygol dewisol a derbyniadau brys. Mae Ward Cilgerran yn cynnwys uned dibyniaeth uchel â thri gwely sy'n gofalu am blant y mae angen eu monitro ac arsylwi arnynt yn agosach.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth a roddwyd iddynt. Ar y cyfan, gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais, cyfeillgar a chefnogol rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd gwybodaeth ar gael yn hawdd ac wedi'i harddangos yn glir er mwyn sicrhau bod y cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn deall eu hawliau o ran codi pryderon neu gwynion am eu gofal yn well.

Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas cleifion eu cynnal bob amser.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion a rhieni/gofalwyr er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 48 gan rieni/gofalwyr, a chwblhawyd deg pellach gan gleifion. Gwnaethom hefyd siarad â chleifion a'u rhieni/gofalwyr yn ystod yr arolygiad. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn ofalgar a chyfeillgar”

“Roedd yr holl staff yma yn wych. Nid oedd fy mab wedi bod yn yr ysbyty o'r blaen ac roedd yn brofiad brawychus i bawb. Roeddent yn rhoi tawelwch meddwl, yn barod iawn i helpu ac yn garedig, gan wneud cyfnod anodd cymaint yn haws!”

Cadw'n iach

Gwelodd y tîm arolygu fod gwybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos ar hysbysfyrddau ac mewn taflenni yn y coridorau ar y wardiau. Roedd y wybodaeth honno'n cynnwys meysydd hybu iechyd fel diabetes, bwydo ar y fron, yr her WEE (gwybodaeth am hydradu i rieni) a gwybodaeth am y ffliw.

Gwelsom, er bod rhywfaint o wybodaeth wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer plant yn ardal aros yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig, fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn fwy priodol ar gyfer rhieni a phobl ifanc yn eu harddegau. Hefyd, ychydig iawn o wybodaeth a oedd ar gael am bynciau fel iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth

o'r cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom argymhell y dylai amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gyfer pob oed fod ar gael ym mhob ardal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd gyfredol ar gael i gleifion o bob oedran.

Gofal gydag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr mewn ffordd garedig a pharchus. Gwelsom y staff yn cyflwyno eu hunain i'r plant a'r bobl ifanc ac yn eu cyfarch gan ddefnyddio eu henw dewisol. Roedd y staff yn weladwy i'r cleifion ar y ddwy ward, a gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phwylllog a oedd yn briodol i'w hoedran. Roedd aelodau o'r staff yn rhoi sylw i anghenion y teuluoedd a'r cleifion, ac roeddent yn gofyn cwestiynau er mwyn sicrhau y gellir mynd i'r afael ag unrhyw anesmwythdra neu ofid.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur AGIC. Daeth cyfanswm o 25 o holiaduron wedi'u cwblhau i law. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r angen i sicrhau disgrisiwn wrth siarad â chleifion am wybodaeth bersonol.

Ar y cyfan, gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion i'r graddau a oedd yn bosibl. Roedd y llenni yn cael eu cau o amgylch gwelyau'r cleifion yn y cilfannau â mwy nag un gwely tra bod y staff yn rhoi gofal personol iddynt ac yn ystod sgysiau personol. Fodd bynnag, ar un achlysur, ar Ward Cilgerran, gwelodd aelodau o'r tîm arolygu aelod o staff yn rhoi gofal i blentyn mewn ardal â mwy nag un gwely gyda'r llen ar agor. Roedd hyn yn golygu bod cleifion eraill neu ymwelwyr o bosibl wedi gweld hyn.

Gwelsom staff yn siarad â rhieni/gofalwyr am ofal eu plentyn mewn ffordd broffesiynol, gan siarad yn dawel er mwyn sicrhau na allai pobl eraill wrth eu hymyl glywed y sgwrs. Fodd bynnag, ar un achlysur yn ardal aros yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig, galwodd aelod o staff ar draws yr ystafell ar riant i ofyn pam roedd ei blentyn yno. Roedd hyn yn golygu y gallai pobl eraill fod wedi clywed gwybodaeth sensitif a phersonol o bosibl am y plentyn. Gwnaethom hefyd glywed staff yn siarad â rhieni tu ôl i len mewn cilfan yn yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig, er bod y staff yn gwneud ymdrech i siarad yn dawel.

Gwnaethom ystyried a allai'r amgylchedd effeithio ar urddas plant a phobl ifanc. Gwelsom feysydd o arfer da, gyda'r staff yn gwneud ymdrech i wahanu bechgyn a merched yn ardal glasoed Ward Cilgerran er mwyn cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas. Fodd bynnag, oherwydd ôl-troed y ward, roedd mynd i ardd awyr agored y ward yn golygu mynd drwy ardal y glasoed. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i gleifion a'u rhieni/gofalwyr gerdded heibio rhai cleifion yn y gilfan â mwy nag un gwely er mwyn mynd allan, a allai gael effaith negyddol ar eu preifatrwydd a'u hurddas. Gwelsom hefyd fod ôl-troed y ward yn golygu bod yn rhaid i gleifion o gilfannau a chiwbiclau ar ben pellaf Ward Cilgerran gerdded drwy gilfan o gleifion er mwyn mynd i'r toiledau neu'r cawodydd.

Roedd y trefniadau ymweld ar y ddwy ward yn golygu bod y cleifion yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau, yn ôl eu dymuniad. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod un rhiant/gofalwr yn gallu aros dros nos gyda phob claf ar welyau tynnu allan, neu ar gadeiriau wrth ymyl gwely'r claf. Gwnaethom hefyd siarad â staff a ddywedodd, os bydd claf yn yr Uned Dibyniaeth Uchel ar Ward Cilgerran, fod y staff yn gwneud ymdrech i alluogi dau riant/gofalwr i aros gyda'r plentyn os oes angen.

Roedd bron pob un o'r rhieni/gofalwyr a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais i'w plentyn ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais i'r teulu. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y staff yn gwrando ar eu plentyn a'r teulu, a dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr fod y staff yn defnyddio enw dewisol eu plentyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y staff yn tynnu'r llenni o amgylch gwelyau cleifion bob amser wrth roi gofal
- Ystyried sut y gellir cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a'u rhieni/gofalwyr os bydd angen i'r staff gael sgysiau sensitif â nhw
- Ystyried cynllun y wardiau a mynediad i'r ardd awyr agored a'r toiledau a'r cawodydd er mwyn cynnal preifatrwydd y cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom hysbysfyRDDau a oedd yn dangos gwybodaeth am rolau'r staff ar y ddwy ward. Roedd bwrdd hefyd ar Ward Cilgerran a oedd yn arddangos enwau'r staff ar ddyletswydd ar y ward y diwrnod hwnnw. Byddai hyn yn helpu'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr i nodi dynodiadau'r staff a oedd yn gofalu amdanynt.

Gwnaethom gynghori y byddai'n fuddiol i'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr gael lluniau o'r staff ar ddyletswydd er mwyn helpu i adnabod y staff.

Gwelsom bosteri cyfarwyddiadau wedi'u harddangos wrth fynedfa'r ddwy ward ac yng nghoridorau y ddwy ward. Roedd y rhain yn cynnwys oriau ymweld, pryd y caiff prydau eu gweini ac arwyddion i gyfeirio pobl (toiledau, ystafell chwarae, gardd awyr agored). Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y gallai'r posteri fod yn fwy addas i blant o ran cynllun ac y dylid eu symud i leoliadau gweladwy ar y wardiau er mwyn i'r plant eu gweld. Byddai hyn yn helpu'r cleifion a'u rhieni/gofalwyr i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch yn hawdd.

Dyweddodd y staff wrthym, wrth gael eu derbyn i Ward Cilgerran, fod y cleifion a'u teuluoedd yn cael taith o amgylch y ward er mwyn dangos iddynt ble mae'r cyfleusterau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dyweddodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y staff wedi bod yn gyfeillgar iddynt. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Mae'r staff yn ofalgar a chyfeillgar”

“Mae'r nyrsys a'r meddygon mor garedig”.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni/gofalwyr a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod y staff yn gwrandao ar eu plentyn a'r teulu, er bod rhai yn anghytuno. Dywedodd bron pob un bod y staff yn defnyddio enw dewisol y plentyn.

Gwelodd y tîm arolygu y staff yn treulio amser gyda'r plant, y bobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr, gan siarad â nhw am eu cyfnod yn yr ysbyty a'u helpu i ddeall eu gofal a'u triniaeth. Gwelsom y staff hefyd yn rhyngweithio â'r cleifion ac yn sicrhau eu bod yn gyfforddus ac yn rhoi tawelwch meddwl cyson wrth roi gofal iddynt.

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd sensitif a chwrtais, gan ystyried eu hanghenion unigol. Roedd yr holl gyfathrebu a welsom yn gyson â cham datblygu'r claf. Fodd bynnag, gwelsom un aelod o staff yn siarad yn swta â phlentyn wrth geisio cwblhau gweithdrefn feddygol. Roedd yn ymddangos bod y plentyn yn ofidus, a helpodd arbenigwr chwarae drwy gyfathrebu ac ymgysylltu â'r plentyn yn gadarnhaol. Drwy gyfathrebu yn gadarnhaol, cwblhawyd y weithdrefn.

Dyweddodd rhai o'r rhieni y gwnaethom siarad â nhw ar Ward Cilgerran nad oedd unrhyw gysondeb o ran y staff yr oeddent yn siarad â nhw a'r wybodaeth yr oeddent yn ei chael mewn perthynas â'u plentyn. O ganlyniad, roedd y rhieni yn

teimlo'n ddryslyd. Rydym yn argymhell cyfathrebu'n glir wrth roi gwybodaeth am eu plentyn i rieni a gofalwyr.

Dywedodd y staff wrthym, wrth gael eu derbyn, y gofynnir i'r cleifion a hoffent gael eu gofal yn Gymraeg neu'n Saesneg. Yna, mae'r staff yn gweithio i ddiwallu'r angen hwnnw ar lafar ac yn ysgrifenedig. Gwelsom fod y staff yn rhagweithiol wrth ddarparu cymaint o ofal â phosibl a rhyngweithio â phosibl yn Gymraeg er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu plant a phobl ifanc a oedd yn siarad Cymraeg. Roedd yn bosibl adnabod staff a oedd yn siarad Cymraeg am eu bod yn gwisgo bathodyn i ddangos eu bod yn ddwyieithog. Cytunodd tua hanner yr ymatebwyr a gwblhaodd holiaduron y gofynnwyd iddynt ym mha iaith yr oedd eu plentyn am siarad ynddi.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gellid cael gafael ar y rhain er mwyn cefnogi'r cleifion hynny nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf o bosibl. Disgrifiodd aelod o'r staff achlysur i ni lle y gwnaeth ddefnyddio'r gwasanaeth i gael cyfieithydd am nad oedd rhieni plentyn yn gallu siarad Saesneg.

Dywedodd y staff wrthym fod 'Fy mhasbort iechyd' unigol i gleifion wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno. Mae'r pasbort yn benodol i'r claf unigol, sy'n cynnwys plant sy'n cael gofal lliniarol, cyflyrau iechyd cymhleth ac anabled. Gwelsom fod yr iaith a ddefnyddir yn y pasbort yn hawdd ei darllen, gall pob oedran ei deall, a defnyddir delweddau gweledol yn yr adrannau gwahanol o'r pasbort. Mae'r pasbort yn aros gyda'r claf, gan ddileu'r angen iddo ailadrodd ei fanylion a'i amgylchiadau mewn apwyntiadau a lleoliadau gwahanol.

Gwelsom gymwysiadau iPad yn cael eu defnyddio hefyd er mwyn cyfleu anghenion gofal i gleifion. Roedd y plant yn gallu tapio ar ddelweddau, er enghraifft, er mwyn dangos faint o boen roeddent ynddo. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i blant a allai fod ag anawsterau iaith a llythrennedd, er mwyn helpu i ddeall eu gofal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod y staff yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chleifion yn gadarnhaol bob amser
- Bod cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael gwybodaeth gyson a chlir am eu triniaeth a'u gofal.

Gofal amserol

Gwelsom fod arsylwadau ar y cleifion yn cael eu cofnodi ar siart a gydnabyddir yn genedlaethol er mwyn nodi'r cleifion a allai fynd yn sâl neu ddatblygu sepsis. Fodd bynnag, yn ystod arolygiad blaenorol AGIC mewn ysbyty arall yn ardal y bwrdd iechyd, nodwyd nad oedd unrhyw ganllaw na llwybr sepsis pediatrig clir ar waith. Dywedodd y rheolwyr wrthym, o ganlyniad i arolygiad blaenorol AGIC, fod y gwaith hwn bellach wedi cael ei flaenoriaethu a bod y canllaw wrthi'n cael ei ddatblygu. Dywedwyd wrthym y dylai'r canllaw sepsis pediatrig fod ar waith ym mhob rhan o ardal y bwrdd iechyd erbyn diwedd mis Mawrth 2020.

Adolygodd y tîm arolygu sampl o gofnodion cleifion a nodwyd bod cleifion a oedd yn dod i'r Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig heb apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw yn cael apwyntiad, ac yn cael eu hasesu a'u harchwilio mewn modd amserol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom siarad â staff a ddywedodd wrthym fod cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael eu hannog i roi cymorth a bod yn rhan o ofal y cleifion bob amser. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu hasesu pan gânt eu derbyn i'r wardiau er mwyn nodi a mynd i'r afael â'u gofynion a sicrhau eu bod yn parhau'n annibynnol yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn cael cyfleoedd i ofyn cwestiynau a chymryd rhan yn eu gofal, a dywedodd tua hanner y rhieni eu bod yn gwybod pwy oedd gweithiwr allweddol a meddyg ymgynghorol eu plentyn.

Gwelsom mewn sampl o gofnodion cleifion fod cynlluniau gofal cleifion yn seiliedig ar ofynion gofal a chymorth cleifion unigol. Gwelsom hefyd fod pecynnau rhyddhau o'r ysbyty ar waith er mwyn diwallu anghenion unigol.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni/gofalwyr a gwblhaodd holiaduron yn cytuno pan fydd angen i'w plentyn ddefnyddio'r toiled y caiff ei alluogi i wneud hynny yn y ffordd fwyaf annibynnol bosibl. Gwnaethant ddweud hefyd fod y staff yn helpu eu plentyn gydag anghenion toiled mewn ffordd sensitif pan fo angen. Gwelsom fod un o'r cyfleusterau ymolchi ar Ward Cilgerran wedi cael ei ddiweddarau er mwyn rhoi mynediad i blant anabl, ac roedd y cyfleusterau yn cynnwys lifft cynorthwyol er mwyn helpu unigolyn i mewn i'r bath.

Gwnaethom siarad â staff chwarae a ddywedodd wrthym eu bod yn newid y teganau yn yr ystafell chwarae er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer oedran y cleifion ar y ward. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu hannog i fod yn weithgar, a rhoddir cyfarpar iddynt i'w helpu i gerdded, symud, bwyta, clywed ac

ati. Dywedodd y staff wrthym fod ffisiotherapydd pediatrig yn gweithio'n glinigol ar y ward er mwyn rhoi triniaeth i gleifion y mae angen cymorth adsefydlu corfforol arnynt.

Gwelsom nad oedd y amgylchedd yn yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig wedi'i deilwra i blant. Roedd wedi'i addurno'n blaen, yn glinigol iawn o ran ymddangosiad, ac nid oedd yn addas i leoliad pediatrig. Dywedodd yr uwchreolwyr wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i wella'r amgylchedd a'i wneud yn fwy addas i blant a'r glasoed.

Mae gan y gwasanaeth nyrs oncoleg arweiniol arbenigol. Dywedodd wrthym fod y tîm oncoleg yn rhoi cymorth yn ddyddiol i gleifion oncoleg ledled ardal ddaearyddol fawr, a bod gwasanaeth ar alwad ar gael ar benwythnosau. Er mwyn cynnal eu cymhwysedd, mae staff y ward yn mynychu sesiwn hyfforddi ffurfiol yng Nghaerdydd bob tair blynedd ac yn cael diweddariad blynyddol gan y nyrs oncoleg arweiniol.

Dywedwyd wrthym fod Latch (elusen canser plant yng Nghymru) wedi ariannu gwaith o droi ciwbicl ar Ward Cilgerran yn ystafell en-suite er mwyn cefnogi'r broses o reoli cleifion neutropenia (cleifion pediatrig â chanser). Dywedodd y staff wrthym fod archwiliad wedi cael ei gynnal er mwyn gweld faint o amser y mae'n ei gymryd i fynd â gwrthfotigau i gleifion neutropenia sy'n mynychu'r ward. Dywedwyd wrthym fod y canlyniadau yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd bod oedi achlysurol wedi bod. O ganlyniad, anogwyd rhieni i ffonio'r ward cyn dod a byddai'r staff yn dilyn protocol ac yn paratoi dogfennaeth, presgripsiwn ac yn sicrhau bod cyffuriau ar gael er mwyn rhoi gofal amserol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir diweddarau a theilwra'r amgylchedd yn yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig i blant.

Hawliau pobl

Yn yr ystafell chwarae, gwelsom ystod eang o deganau, posau, gweithgareddau paentio ac ardaloedd chwarae rôl a fyddai'n helpu plant iau i ddatblygu. Roedd cornel ddarllen yn darparu amrywiaeth o lyfrau yn Gymraeg a Saesneg i blant o bob oedran er mwyn annog datblygiad lleferydd ac iaith.

Gwnaethom hefyd weld ardal ddynodedig ar gyfer y glasoed lle y gallant dreulio amser yn ymlacio i ffwrdd o ardaloedd prysur y ward. Roedd yr ardal hon yn darparu amrywiaeth o weithgareddau. Fodd bynnag, gwnaethom ystyried y dylai

fod mwy o weithgareddau ymarferol ar gael am fod y rhan fwyaf a oedd ar gael yn cynnwys amser o flaen sgrin.

Gwelsom ardd awyr agored fawr a diogel gyda nifer o weithgareddau er mwyn annog datblygiad ac iechyd corfforol.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni/gofalwyr a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod digon o weithgareddau ar gyfer eu plentyn a chyfleusterau digonol i rieni. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni a gwblhaodd holiaduron hefyd fod digon o adloniant a phethau i'w wneud ar y ward sy'n addas ar gyfer oedran eu plentyn.

Gwnaethom siarad â staff a ddywedodd fod cynlluniau chwarae unigol yn cael eu datblygu ar gyfer cleifion sy'n aros ar y ward am gyfnod hir o amser. Dywedwyd wrthym y gellir defnyddio cardiau emosiynau a chyfarwyddiadau os bydd cyfathrebu ar lafar yn gyfyngedig, a gellir defnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol er mwyn i blant/pobl ifanc ysgrifennu yr hyn maent ei eisiau neu sydd ei angen arnynt os nad ydynt yn cyfathrebu ar lafar.

Gwelsom hefyd fod Makaton¹ yn cael ei ddefnyddio ar y wardiau. Mae hyn yn fuddiol i blant a all gael anawsterau gyda sgiliau cyfathrebu.

Dywedodd y staff wrthym fod anghenion ysbrydol a diwylliannol unigol y claf yn cael eu hasesu pan gaiff ei dderbyn i'r wardiau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu ceisio cyngor a chymorth arweinwyr crefyddol yn yr ardal ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd/gofalwyr. Drwy drafodaethau â'r staff, roedd yn amlwg eu bod yn mynegi dyhead i ddiwallu holl anghenion eu cleifion gan gynnwys eu dewis crefyddol.

Gwelsom fod gan y ward ystafell enfys ar gyfer cleifion ag anghenion iechyd meddwl. Dywedodd y staff wrthym y caiff hyn ei ariannu a'i staffio gan wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), a staff y ward sy'n darparu nodweddion sylfaenol gofal. Gwelsom hefyd fod ystafell drws nesaf a oedd yn cael ei defnyddio i roi gwasanaeth cwnsela pan fo angen. Fodd bynnag, oherwydd ôl-troed y ward, roedd yn rhaid i gleifion gerdded drwy'r ward a thrwy

¹ Rhaglen iaith yw Makaton sydd wedi'i chynllunio i ddarparu ffordd o gyfathrebu ag unigolion na allant gyfathrebu'n effeithlon ar lafar

gilfan â mwy nag un gwely er mwyn cyrraedd yr ystafell enfys. Nid yw'n hawdd gweld yr ardal hon o brif goridor y ward ac mae'n bell i ffwrdd o orsaf y nyrsys.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried lleoliad yr ystafell enfys ar y ward.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod cleifion a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog i roi adborth mewn amrywiaeth o ffyrdd. Roedd holiaduron adborth ar gael er mwyn i rieni/gofalwyr a chleifion eu cwblhau a'u rhoi mewn blwch dienw a ddarperir. Roedd bwrdd 'yr hyn a ddywedoch chi, yr hyn a wnaethom ni' wedi'i arddangos ar Ward Cilgerran. Roedd hyn yn dangos yn glir yr awgrymiadau a'r gwelliannau a oedd wedi cael eu gwneud gan dimau o staff i'r gwasanaeth o ganlyniad i'r adborth a ddarparwyd.

Gwnaethom siarad ag aelodau o'r tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion sy'n gweithio yn yr ysbyty. Gwnaethant ddweud wrthym y gall cleifion a'u teuluoedd ddweud wrthynt yn uniongyrchol am unrhyw gwynion dros y ffôn, drwy e-bost neu'n ysgrifenedig os nad yw eu cwyn wedi cael ei datrys ar lefel y ward. Dywedodd y tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion eu bod yn ceisio datrys cwynion yn lleol ar adeg derbyn y gŵyn. Dywedwyd wrthym fod aelod o'r tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion yn mynychu Ward Cilgerran a'r Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig er mwyn cael adborth gan gleifion a'u teuluoedd. Caiff y canlyniadau eu coladu a'u cyflwyno i reolwyr wardiau er mwyn gweithredu arnynt

Dywedodd bron pob un o'r staff a gwblhaodd holiaduron wrthym fod adborth ar brofiad cleifion yn cael ei gasglu. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion, a dywedodd pob un fod yr adborth hwnnw'n cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu cyfarwyddiaeth neu adran.

Dywedodd y staff a'r rheolwyr wrthym y byddent yn ceisio ymdrin ag unrhyw gwynion yn llygad y ffynnon, gyda'r nod o'u datrys yn gyflym. Roedd taflenni dwyieithog am weithdrefn gwyno Gweithio i Wella y GIG yn cael eu harddangos ar y ddwy ward, er mwyn i gleifion eu dilyn pe bai ganddynt bryderon am eu gofal. Roedd gwybodaeth a oedd yn nodi manylion y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) ar gael hefyd. Dywedodd y staff wrthym y byddant yn cyfeirio plant, pobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr i'r CIC pe bai angen. Gall y CIC ddarparu eiriolaeth a chymorth i gleifion wrth fynegi pryder am eu gofal. Roedd gwybodaeth am godi

pryderon a chymorth eiriolaeth hefyd ar gael ar wefan y bwrdd iechyd. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd am sut i gysylltu â'r tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roedd trefniadau ar waith i gadw'r cleifion yn ddiogel yn yr ardaloedd yr ymwelwyd â nhw. Fodd bynnag, roedd amgylchedd ac ôl-troed y wardiau yn cyflwyno heriau i'r staff a'r rheolwyr.

Gwnaethom nodi meysydd i'w gwella o ran atal a rheoli heintiau ar y wardiau.

Dylai fod ystafell storio a pharatoi cyffuriau ar wahân ar gael i'r Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig er mwyn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch cleifion.

Roedd y gwasanaeth yn disgrifio trefniadau da ar gyfer gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys darparu hyfforddiant.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, roedd yr uned yn lân ac wedi'i goleuo'n briodol, ond mae'r amgylchedd yn dangos ôl traul ac mae angen rhoi sylw iddo. Mae amgylchedd ac ôl-troed y ward yn cyflwyno nifer o heriau i'r rheolwyr a'r staff wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ac fe'u hamlygir yn yr adroddiad hwn.

Gwelsom brosesau rhagorol ar waith i reoli risg, a oedd yn cynnwys archwiliadau rheolaidd o drefniadau golchi dwylo a rheoli heintiau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi colli prif storfa'r ward o ganlyniad i waith datblygu parhaus yn yr ysbyty. Roedd hyn yn golygu bod rhai eitemau mwy o faint bellach yn cael eu storio yn y coridorau oherwydd diffyg gofod yn yr uned storio dros dro. Gallai hyn fod yn beryglus i gleifion a'u teuluoedd ac achosi anawsterau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Rydym yn argymhell darparu ardal storio ychwanegol at ddefnydd y ward.

Ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, gwelsom nad oedd drws y cwpwrdd glanhau ar Ward Cilgerran wedi'i gloi'n ddiogel. Gwnaethom hefyd weld dau droli glanhau a oedd yn cynnwys cyfarpar a sylweddau glanhau wedi'u gadael heb

oruchwyliaeth yng nghoridor y ward. Gallai'r materion hyn beri risg o fynediad anawdurdodedig i sylweddau peryglus i'r cleifion a'r ymwelwyr. Codwyd y materion hyn ar unwaith a chymerwyd camau er mwyn unioni'r sefyllfa. Ceir manylion am hyn yn Atodiad A.

Gwelodd y tîm arolygu fod trefniadau ar waith i gadw'r cleifion yn ddiogel yn yr ardaloedd yr ymwelwyd â nhw. Roedd un fynedfa yn rhoi mynediad i Ward Cilgerran a'r Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig drwy system intercom. Gwelsom y staff yn holi'r ymwelwyr am y rhesymau dros eu hymweliad cyn caniatáu iddynt gael mynediad i'r wardiau. Mae angen i unrhyw un sy'n dymuno gadael y ward ofyn i'r staff eu gadael allan gyda'u cardiau allwedd neu drwy'r system intercom. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion a'u rhieni/gofalwyr yn cael gwybod am y mesurau diogelwch wrth gael eu derbyn i'r ysbyty. Gwelsom y cleifion yn gwisgo bandiau adnabod ar eu harddyrnau hefyd. Byddai hyn yn lleihau'r risg y gallai camgymeriad gael ei wneud o ran meddyginiaeth a/neu o ran adnabod y claf pe bai angen cynnal ymchwiliadau clinigol y tu allan i amgylchedd y ward. Gwnaethom hefyd weld bod clychau galw yn cael eu defnyddio ac o fewn cyrraedd hawdd i gleifion a'u rhieni/gofalwyr.

Gwelsom fod y ward yn cynnwys uned dibyniaeth uchel â thri gwely i ffwrdd o'r prif goridor, sy'n gofalu am blant y mae angen eu monitro ac arsylwi arnynt yn agosach.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni/gofalwyr a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod y staff wedi ystyried hanes meddygol blaenorol eu plentyn ac wedi trafod cynllun gofal eu plentyn â nhw, a dim ond ychydig a oedd yn anghytuno. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno bod y staff yn eu hannog i ofyn cwestiynau am ofal eu plentyn.

Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Gwelodd y tîm arolygu fod prosesau ac asesiadau risg ar waith i ymdrin â niwed oherwydd briwiau pwysu a'i atal. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg croen a chynlluniau gofal wedi'u cwblhau gan unigolyn priodol yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom, ynghyd â gwaith monitro parhaus o fannau pwysu.

Atal cwympiadau

Gwelsom fod ymdrechion wedi'u gwneud i asesu a nodi cleifion a oedd yn wynebu risg o gwmpo. Lle y bo'n briodol, roedd cleifion wedi cael eu hasesu ar gyfer y risg o gwmpo. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gleifion yn wynebu risg yn y cofnodion cleifion a welsom. Gwelsom hefyd fod babanod a phlant bach wedi cael eu hasesu a bod y rhai yr oedd angen cotiau neu ochrau gwelyau arnynt wedi'u nodi.

Dywedodd y rheolwyr wrthym fod dogfen asesu risg o gwmpo newydd wrthi'n cael ei datblygu. Unwaith y bydd ar waith, dywedwyd wrthym y byddai archwiliad yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ei chwblhau yn briodol lle y bo angen.

Atal a rheoli heintiau

Nodwyd gennym fod ardaloedd clinigol y ward a arolygwyd yn ymddangos yn lân. Roedd y staff yn cydweithio er mwyn cadw'r amgylchedd yn lân a gwelwyd bod y staff domestig yn bresennol ar amseroedd gwahanol o'r dydd. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y ward yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwelsom rai ardaloedd lle roedd angen gwneud gwelliannau i drefniadau rheoli ac atal heintiau cyffredinol.

Gwelsom fod ystafelloedd cawod i'r glasoed ac i blant iau wedi'u lleoli oddi ar brif goridor y ward. Er eu bod yn ymddangos yn lân, roedd angen eu diweddarau am fod teils wedi'u torri, seliau wedi'u torri ac arwynebau llawr anwastad a fyddai'n eu hatal rhag cael eu glanhau yn llawn. Gwelsom fod y lloriau yn y rhan fwyaf o'r cilfannau mewn cyflwr gwael ac wedi'u treulio yn ddifrifol. Gwelsom hefyd fod y llawr yn y cwpwrdd glanhau wedi'i dreulio, yn anwastad ac roedd yr addurn o amgylch gwaelod y llawr wedi'i ddifrodi.

Roedd y tîm arolygu yn ystyried bod ôl-troed a ffactorau amgylcheddol y ward yn her i'r staff wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dim ond un olchfa sydd gan y wardiau sydd wedi'i lleoli yr ochr arall i welyau'r cleifion mewnol ac ardal y glasoed. Roedd hyn yn golygu bod risg yn gysylltiedig â chario eitemau gwastraff ar hyd y ward er mwyn cael gwared arnynt. Fel y cyfeiriwyd ato eisoes yn yr adroddiad hwn, dim ond cyfleuster storio cyfyngedig oedd ar gael hefyd mewn portacabin. Dywedodd y staff wrthym fod problemau cyson gyda'r cyfleuster storio am fod llwydni ar y waliau, dŵr yn diferu o dan y llawr, a nodwyd nad oedd yn bosibl defnyddio'r toiledau yn y portacabin yn aml oherwydd eu bod yn blocio. Yn ystod ein harolygiad, nid oedd yn bosibl defnyddio un o'r toiledau.

Gwelsom hefyd fod tâp ar rai o'r ffenestri ar Ward Cilgerran ac nad oedd yn bosibl eu hagor am fod y cliciedau wedi'u torri. Dywedodd uwch-reolwr wrthym fod asesiad risg wedi cael ei gynnal ar gyfer y materion amgylcheddol ac y tynnwyd sylw y bwrdd iechyd atynt ym mis Mai 2019. Gwnaethom edrych ar gofrestr risg y bwrdd iechyd a gwelsom fod y risgiau amgylcheddol wedi cael eu nodi a'u monitro a bod camau wedi cael eu cymryd i leihau'r risgiau hynny lle y bo'n bosibl.

Gwelsom fod nifer o'r gwelyau tynnu allan y mae rhieni/gofalwyr yn cysgu arnynt pan fyddant yn aros dros nos wedi'u rhwygo a bod modd gweld y llenwad sbwng y tu mewn iddynt. Roedd hyn yn cynnwys gwelyau yn yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig a Ward Cilgerran. Mae hyn yn peri risg o haint, a rhaid i'r gwelyau tynnu

allan gael eu hatgyweirio neu rhaid gosod rhai newydd yn eu lle oherwydd ni ellir eu glanhau i safonau rheoli heintiau. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod 14 o welyau tyngu allan newydd wedi cael eu harchebu.

Nid oes gan y gwasanaeth ystafell en-suite ar wahân ar gyfer cleifion pe bai angen gofal nyrsio ataliol. Dywedodd y staff wrthym fod yn rhaid i'r cleifion naill ai ddefnyddio comôd neu ystafell ymolchi ar ochr arall y coridor na ellir ei defnyddio yn gyffredinol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro ar gael ym mhob ardal a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwelsom fod cleifion ac ymwelwyr â'r wardiau yn cael eu hannog i ddilyn hylendid dwylo da. Gwelsom boster gyda phum cam hylendid dwylo ar y coridor er mwyn i rieni ei ddarllen. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo. Gwelsom fod y staff yn golchi eu dwylo'n briodol ac yn defnyddio gel diheintio dwylo pan fo angen hynny. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn hawdd yn y coridorau ac wrth fynedfa ciwbiclau ac roedd cyflenwad da ym mhob un. Roedd taflenni ar gael a oedd yn annog pobl i ddilyn hylendid dwylo da a phwysigrwydd hynny. Gwelsom hefyd bosteri a hysbysfyrddau gyda lliwiau llachar, ffontiau print tywyll, iaith syml a brawddegau ac ymadroddion byw er mwyn annog plant a phobl ifanc i olchi eu dwylo.

Cawsom sicrwydd fod proses ar waith ar gyfer sicrhau bod teganau, llyfrau a chyfarpar chwarae arall y plant yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Mae hyn yn golygu eu bod mor lân ac mor ddiogel â phosibl i'r plant eu defnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Ystyried darparu ardal storio ychwanegol
- Sicrhau y caiff teils a seliau yr ystafell ymolchi a'r lloriau anwastad ar y wardiau eu hatgyweirio neu bod rhai newydd yn cael eu gosod er mwyn sicrhau y gellir eu glanhau'n effeithiol.
- Ystyried darparu golchfa ychwanegol
- Parhau i nodi, monitro a gweithredu ar y risgiau a achosir gan yr amgylchedd gwael

- Bod gwelyau tynnu allan yn cael eu gosod yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi ar y ddwy ward.

Maeth a hydradu

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar y ffordd roedd anghenion maeth y cleifion yn cael eu diwallu. Gwelsom fod anghenion maeth unigol y cleifion yn cael eu hasesu wrth gael eu derbyn i'r ysbyty ac yn unol â llwybr gofal maethol Cymru Gyfan. Lle y bo angen, gwelsom fod atgyfeiriad at ddeietegydd wedi cael ei wneud.

Dywedodd y staff wrthym fod rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i helpu eu plentyn i fwyta ac yfed yn ôl y gofyn. Os bydd claf yn cael ei dderbyn y mae angen cymorth arno i fwyta ac yfed, gall staff nyrsio ymyrryd a rhoi cymorth. Os bydd staff nyrsio yn brysur, yna mae'r staff chwarae hefyd yn hapus i roi cymorth yn ystod amseroedd bwyd. Roedd tua hanner yr ymatebwyr a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod y staff yn helpu eu plentyn i fwyta os oedd angen cymorth arno, a dim ond ychydig a wnaeth anghytuno.

Gwnaethom arsylwi ar amseroedd bwyd a gwelsom fod y cleifion yn cael dewis o fwyd poeth a oedd yn cael ei weini wrth ochr eu gwelyau. Dywedodd y staff wrthym fod y fwydlen yn cael ei newid bob pedair wythnos ac anogir cleifion i archebu opsiynau iach, ochr yn ochr â'u prif bryd. Roedd amrywiaeth o opsiynau a oedd yn addas i blant ar gael. Gwelsom fod y bwyd yn ymddangos yn boeth, yn flasus ac yn briodol ar gyfer ystodau oedran penodol. Gwelsom hefyd fod y cyllyll a ffyrc a'r llestri a ddarperir wedi'u teilwra i oedran y plentyn. Cawsom ein hysbysu, pe bai chwant bwyd ar y cleifion y tu allan i'r amseroedd bwyd, y gallent gael byrbrydau ychwanegol o oergell sydd wedi'i lleoli yng nghegin y ward ac sy'n cael ei defnyddio'n benodol i storio bwyd ar gyfer cleifion. Gall rhieni hefyd storio bwyd ar gyfer eu plant yn yr oergell.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y bwyd yn addas i blant, a bod maint y prydau bwyd yn briodol, a dim ond ychydig iawn oedd yn anghytuno. Fodd bynnag, nododd un rhiant:

“Nid yw'r dewisiadau ar y fwydlen yn wych. Mae'n fwydlen sydd wedi'i hanelu at oedolion. Nid yw plant sy'n sâl am fwyta prydau mawr ar amseroedd bwyd penodol.”

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron yn cytuno eu bod yn hoffi'r bwyd ar y ward, ac roedd tua thraean yn anghytuno.

Dywedodd y staff wrthym fod plant a phobl ifanc yn cael jygiau dŵr a chwpanau wrth gael eu derbyn i'r ward. Gall rhieni/gofalwyr lenwi'r jygiau â dŵr pryd bynnag maent am wneud hynny ac mae'r staff yn aml yn cynnig mwy o ddŵr er mwyn sicrhau bod y cleifion wedi'u hydradu. At hynny, dywedwyd wrthym fod y staff yn cymryd gofal i sicrhau bod y dŵr yn y jwg yn ffres neu'n cadw golwg ar unrhyw ddŵr sydd wedi bod yno am gyfnod hir o amser. Hefyd, dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn gyfforddus wrth ofyn am ddŵr ffres gan y staff. Roedd amrywiaeth o gwpanau a oedd yn briodol ar gyfer oedran y cleifion ar gael.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod y staff yn helpu eu plentyn i yfed os oedd angen cymorth arno, a dim ond ychydig oedd yn anghytuno. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno bod dŵr ar gael i'w plentyn ar y ward bob amser.

Lle y bo'n briodol, gwelsom fod cymeriant hylifau yn cael ei fonitro a bod siartiau hylif yn cael eu cwblhau, eu bod yn gyfredol ac yn hawdd eu dilyn.

Gwelsom hefyd yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom fod alergeddau ac anoddefiadau yn cael eu hystyried ac y caiff yr anghenion hyn eu diwallu. Dywedodd y staff wrthym fod bwydlen figan ar wahân ar gael hefyd.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer storio meddyginiaethau'n ddiogel ar y ddwy ward. Gwelsom hefyd, er bod y cyffuriau a reolir yn yr ystafell feddyginiaeth ar Ward Cilgerran yn ddiogel mewn ystafell dan glo, roedd y cloeon ar rai o ddrysau'r cypyrddau cyffuriau wedi'u torri. Gwelsom storfa hefyd lle nad oedd clo ar y cwpwrdd lle roedd hylifau mewnwythiennol yn cael eu storio. Codwyd y materion hyn ar unwaith a chymerwyd camau er mwyn unioni'r sefyllfa. Ceir manylion am hyn yn Atodiad A.

Ystyriodd y tîm arolygu y brif ystafell driniaeth yn yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig. Defnyddir yr ystafell fel ystafell amlbwrpas gan gynnwys storio, paratoi a rhoi cyffuriau, fel swyddfa a storfa dogfennaeth, ystafell driniaeth ar gyfer archwilio plant a chymryd samplau gwaed o gleifion. Roedd hyn yn golygu, os oedd claf yn cael triniaeth yn yr ystafell, fod achlysuron yn codi lle gallai aelod o staff yr oedd angen meddyginiaeth neu ddogfennaeth arno dorri ar draws y driniaeth. Gwnaethom siarad â'r staff a ddywedodd wrthym fod asesiad risg eisoes wedi cael ei gynnal ynghylch y mater hwn a bod materion wedi'u nodi o ran cyfrinachedd cleifion a staff yn gwirio meddyginiaeth heb i rywun dorri ar eu

traws. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod cyfarwyddiaeth y gwasanaeth wedi cael gwybod am y risg a nodwyd yn 2016 yn dilyn nifer o ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys labelu sampl gwaed yn anghywir. Rydym yn argymhell y dylid sicrhau bod ystafell storio a pharatoi cyffuriau ar wahân ar gael yn yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig er mwyn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch cleifion.

Gwelodd y tîm arolygu dystiolaeth o arferion da o ran rhoi meddyginiaeth. Edrychwyd ar y ffordd roedd Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan yn cael eu cwblhau a nodwyd bod y cofnodion yn gyson ac yn gywir, gan gynnwys enwau'r cleifion a'r amseroedd pan gafodd y cyffuriau eu rhagnodi a'u rhoi. Gwelsom fod cleifion yn cael eu cefnogi i gymryd eu meddyginiaeth lle y bo angen. Gwelsom y staff hefyd yn rhoi cymorth i rieni/gofalwyr er mwyn iddynt ddeall y meddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi i'r cleifion pan oeddent yn gadael y wardiau.

Gwnaethom siarad â fferylllydd dynodedig y ward sy'n ymweld â'r wardiau pediatrig yn ddyddiol o ddydd Llun i ddydd Gwener er mwyn casglu siartiau cyffuriau a threfnu gofynion meddyginiaeth y cleifion sy'n mynd adref. Caiff y feddyginiaeth ei dychwelyd yn amserol, gan gefnogi'r broses o ryddhau'r cleifion yn brydlon. Dywedwyd wrthym fod fferylllydd ar alw ar gael er mwyn cael gafael ar feddyginiaethau y tu allan i oriau swyddfa, ynghyd â chwprdd cyffuriau brys y gallai tîm y safle ei ddefnyddio. Dywedodd y fferylllydd wrthym mai Ward Cilgerran oedd un o'r goreuon yn yr ysbyty o ran rhoi gwybod am gamgymeriadau cyffuriau ar Datix (system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd) a bod gan y ward ddiwylliant dysgu a dim bai rhagorol.

Roedd yn hawdd i'r staff gael gafael ar bolisi'r bwrdd iechyd ar reoli meddyginiaethau yn electronig ar y fewnrwyd. Roedd y polisi yn cynnwys gwybodaeth am roi meddyginiaeth yn ddiogel a storio, rhagnodi a rhoi cyffuriau yn ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod darparu ystafell storio a pharatoi cyffuriau pwrpasol yn yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig yn cael ei ystyried.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i nodi, hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn agored i niwed neu'n wynebu risg. Cawsom sicrwydd bod hyder yn y broses ddiogelu yn cael ei ddangos.

Gwnaethom siarad â'r nyrs arweiniol ar gyfer diogelu plant, a ddywedodd wrthym y gall unrhyw ymarferydd o unrhyw ran o'r bwrdd iechyd gael gafael ar un pwynt cyswllt o'r tîm diogelu i gael cymorth a chyngor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Dywedwyd wrthym hefyd fod aelod o staff o'r tîm diogelu ar gael i roi cyngor a chymorth ar y ward bediatrig yn ddyddiol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod y gallant fynd at aelodau'r tîm diogelu sydd yno i roi cymorth a chyngor. Roedd y staff hefyd yn gwybod, os oeddent yn ystyried bod angen gwneud atgyfeiriad diogelu, na ddylid oedi o gwbl wrth wneud yr atgyfeiriad ac y dylid rhoi'r newyddion diweddaraf am y cam gweithredu a gymerwyd i'r pwynt cyswllt diogelu.

Dywedwyd wrthym fod gan bob cyfrifiadur yn y bwrdd iechyd eicon diogelu sy'n galluogi'r staff i gael gafael ar wybodaeth sy'n cynnwys tudalen ymholiadau, dogfennau allweddol, gwersi a ddysgwyd, llyfrynau cymhwysedd, hysbysfwrdd a dolen i weithdrefnau diogelu Cymru Gyfan.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant diogelu yn orfodol ar gyfer staff yn yr uned. Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael hyfforddiant diogelu yn ddiweddar. Cawsom sicrwydd fod y ffigurau cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant diogelu i staff yn yr uned yn uchel.

Dywedodd y nyrs arweiniol ar gyfer diogelu plant wrthym fod y bwrdd iechyd yn arwain y gwaith o ddatblygu prosesau i ymdrin â chleisiau ar blant nad ydynt yn symud. Dywedwyd wrthym fod grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu a'i fod yn gweithio'n agos gyda Cysur² yn y rhanbarth diogelu er mwyn datblygu llwybr clir a manwl gywir ar gyfer ymdrin â phlant nad ydynt yn symud. Dywedwyd wrthym fod y darn hwn o waith ar ei gamau datblygu olaf a dylai gael ei gwblhau ym mis Mai 2020.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer gwirio'r cyfarpar brys ar y ddwy ward. Gwelsom fod y gwiriadau dyddiol gofynnol o'r troli dadebru yn cael eu cynnal yn briodol. Fodd bynnag, gwelsom fod y gwiriad llawn o gynnwys cyfarpar ar y troli dadebru brys wedi'i selio yn cael ei gwblhau yn fisol, tra bod y ddogfen rhestr

² Cysur yw Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

wirio yn nodi y dylid cynnal gwiriadau yn wythnosol, neu ar ôl i'r cyfarpar gael ei ddefnyddio. Gwnaethom wirio polisi dadebru'r bwrdd iechyd a oedd yn nodi y dylid cynnal gwiriadau yn wythnosol. Roedd hyn yn golygu bod y gwiriadau yn annigonol am nad oeddent yn cael eu cynnal yn wythnosol. Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr a ddywedodd wrthym fod y polisi wedi cael ei ddiweddarau a'i ddilysu er mwyn sicrhau bod y gwiriadau llawn o gynnwys cyfarpar yn cael eu cynnal yn fisol, neu pan oedd y sêl wedi ei thorri a'r cyfarpar brys wedi cael ei ddefnyddio. Cyn diwedd ein harolygiad, cawsom sicrwydd fod y prosesau a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer gwiriadau misol yn unol â'r polisi newydd.

Gwelsom fod gan yr uned gyfarpar a dyfeisiau meddygol a oedd yn briodol er mwyn diwallu anghenion y cleifion. Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw'r broses ar gyfer glanhau a dihalogi cyfarpar. Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar aml dro yn cael ei lanhau cyn ac ar ôl ei ddefnyddio, a chadarnhawyd hyn wrth i ni arsylwi. Roedd yr holl gyfarpar a welsom yn edrych yn lân.

Gwelsom fod prosesau ar waith i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer y defnydd a fwriadwyd. Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd egluro'r broses ar gyfer rhoi gwybod am gyfarpar a oedd yn ddiffygiol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Drwy gydol ein harolygiad, cawsom sicrwydd bod pob agwedd ar ofal a welsom yn dangos tystiolaeth o ddarparu gofal da, diogel ac effeithiol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o amser i roi gofal yn ddiogel a'u bod bob amser yn blaenoriaethu gofal cleifion. Roeddent i gyd yn cytuno mai'r unig gyfyngiadau o ran darparu gofal diogel ac effeithiol oedd ôl-troed y ward.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos yr archwiliadau clinigol sy'n cael eu cynnal yn yr uned bob mis. Roedd hyn yn cynnwys archwiliad dogfennau sgôr rhybudd cynnar pediatrig (PEWS), hylendid dwylo, rheoli heintiau, cydymffurfio â phrosesau noeth o dan y penelin ac archwiliad rheoli meddyginiaeth. Dywedwyd wrthym hefyd fod archwiliadau nodweddion sylfaenol gofal, archwiliadau safonau gofal iechyd a chydymffurfiaeth misol â dangosyddion gofal pediatrig yn cael eu monitro. Gwelsom dystiolaeth yn cael ei harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell staff o gydymffurfiaeth uchel ym mhob maes.

Yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom, roedd yn amlwg bod asesu a rheoli poen yn flaenoriaeth o ran gofal cleifion. Gwelsom fod anghenion rheoli poen

cleifion yn cael eu hasesu'n brydlon wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran defnyddio'r adnoddau asesu poen. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr arbenigwyr chwarae yn chwarae rôl wrth reoli poen weithdrefnol megis cymryd gwaed.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod y staff wedi gwneud popeth y gallent er mwyn helpu eu plentyn o ran rheoli poen, a dim ond ychydig iawn oedd yn anghytuno. Nododd un claf:

“Mae'r nyrsys wedi edrych ar fy ôl i yn dda ac maent wedi ceisio lleihau fy rhoen cymaint â phosibl”

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwnaethom siarad â'r Rheolwr Uwch-nyrs ar gyfer Sicrhau Ansawdd a ddywedodd wrthym fod grŵp strategol wedi cael ei sefydlu er mwyn mabwysiadu siarter plant yn y bwrdd iechyd. Caiff y siarter ei hategu gan y gwerthoedd a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn³. Mae'n nodi 10 addewid sy'n sicrhau y bydd plant a phobl ifanc yn ymwybodol y cânt eu parchu ac y bydd pobl yn gwrando arnynt ac yn gofalu amdanynt wrth iddynt dderbyn triniaeth yn y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y bwrdd iechyd nyrs arweiniol ar gyfer gofal iechyd lliniarol, ac arbenigwr chwarae gofal lliniarol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cyfrinachedd cleifion a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Llywodraethu Gwybodaeth a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2018) yn yr uned. Ar y cyfan, gwelsom fod gwybodaeth cleifion yn cael ei rheoli a'i storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a chynnal cyfrinachedd cleifion. Fodd bynnag, gwelsom droli yng nghoridor Ward Cilgerran a oedd heb ei gloi ac a oedd yn cynnwys gwybodaeth sensitif am gleifion. Roedd adegau pan nad oedd staff yn bresennol yn yr ardaloedd hyn a oedd yn golygu bod risg y gallai cleifion neu ymwelwyr â'r wardiau gael gafael ar wybodaeth am gleifion. Codwyd y mater hwn ar unwaith

³ Cytundeb hawliau dynol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, iechyd a diwylliannol plant.

a chymerwyd camau er mwyn unioni'r sefyllfa. Ceir manylion am hyn yn Atodiad A.

Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion y cleifion ar y ddwy ward. Yn gyffredinol, roedd cofnodion y cleifion o safon dda, yn hawdd eu deall ac yn llawn gwybodaeth. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu hategu ymhellach gan nodiadau hanes ffurfiol, siartiau presgripsiynau, siartiau cyffuriau, siartiau hylif ac arsylwi a gwerthusiadau nyrsio. Gwelsom dystiolaeth o adolygiad ymgynghorol dyddiol gyda dynodyddion allweddol a oedd yn cynnwys llofnodion, enwau mewn llythrennau breision a rhifau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Roedd pob cofnod wedi cael ei ddyddio a'r amser cofnodi wedi'i gynnwys. Gwelsom fod asesiadau risg maethol, hyfywedd meinwe a symudedd ar waith yn yr holl setiau o nodiadau a welsom.

Gwnaethom siarad â rheolwr a ddangosodd enghreifftiau o archwiliadau dogfennau PEWS i ni a oedd wedi cael eu cynnal ar y wardiau.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd er mwyn helpu i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd system gadarn ar waith hefyd ar gyfer rheoli digwyddiadau clinigol.

Gwelsom fod y staff ar y ddwy ward yn gydlynol a bod ganddynt gydberthynas dda â'u rheolwyr. Roedd hyn yn dangos bod y tîm yn cydweithio'n dda.

Roedd system sefydledig ar waith ar gyfer cwblhau arfarniadau ac adolygiadau datblygu personol.

Roedd cydymffurfiaeth â diogelwch tân lefel 2 gorfodol yn isel oherwydd gofyniad am hyfforddiant penodol, yn berthnasol i ôl-troed y wardiau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwnaethom siarad â'r rheolwr uwch-nyrs pediatrig ar gyfer sicrhau ansawdd, a ddywedodd wrthym ei fod yn gyfrifol am wasanaethau pediatrig ar gyfer tri safle yn ardal y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym mai'r unigolyn hwn yw'r uwch-nyrs ar gyfer gwasanaethau plant a chyswllt y bwrdd iechyd ag adrannau achosion brys ac unedau dibyniaeth uchel. Dywedwyd wrthym hefyd mai'r unigolyn hwn yw arweinydd y bwrdd iechyd ar gyfer cyflwyno deddf lefelau staff nyrsio pediatrig.

Dywedodd fod y Grŵp Gwasanaethau Plant yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd cyfarfodydd o'r fath yn cynnwys cyfarfodydd sicrhau ansawdd misol, lle y trafodir eitemau megis nodweddion sylfaenol gofal, archwiliadau safonau gofal iechyd a chydymffurfiaeth â dangosyddion gofal pediatrig. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd Datix yn cael eu cynnal bob yn ail fis lle y caiff digwyddiadau y

rhoddwyd gwybod amdanynt, ymchwiliadau a'u canfyddiadau eu trafod mewn fformat amlddisgyblaethol. Gwelsom gofnodion o'r cyfarfodydd a oedd wedi cael eu llunio a gwelsom fod gwybodaeth a gwersi yn cael eu rhannu ar draws gwasanaethau pediatrig ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd er mwyn cefnogi newidiadau i ymarfer a dysgu. Roedd themâu a thueddiadau hefyd yn cael eu nodi, gyda'r nod o dynnu sylw at unrhyw feysydd ymarfer roedd angen mynd i'r afael â nhw yn y bwrdd iechyd.

Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd meddygon ymgynghorol misol yn cael eu cynnal, wedi'u dilyn gan fforwm pediatrig. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd gwasanaethau plant misol, lle mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys perfformiad, salwch ac absenoldeb staff, cwynion, swyddi gwag a phrofiadau cleifion. Roedd cyfarfodydd eraill yn cynnwys diwrnod amlddisgyblaethol archwilio a llywodraethu clinigol chwarterol lle y caiff gwersi a ddysgwyd o Datix eu hadrodd yn ôl i'r gyfarwyddiaeth. Dywedwyd wrthym hefyd y cynhelir fforymau pediatrig a chyswllt brys chwarterol.

Gwelsom adborth ar hysbysfwrdd yr ystafell staff gan 'druggles', sef fforwm lle y trafodir camgymeriadau o ran meddyginiaeth bob pythefnos. Dywedwyd wrthym fod y fferyllydd yn arwain y cyfarfod ac anogir nyrsys a meddygon i fynd iddo. Dywedwyd wrthym fod camgymeriadau Datix a chamgymeriadau nad ydynt ar Datix yn cael eu trafod yn agored, a bod pob camgymeriad yn ddiennw fel na ellir adnabod aelodau o staff. Rhoddir adborth cadarnhaol i staff hefyd. Roedd y tîm arolygu o'r farn bod y 'druggles' yn ffordd agored a chadarnhaol o rannu a dysgu p gamgymeriadau o ran meddyginiaeth.

Dywedwyd wrthym gan y rheolwyr y darperir adborth o gyfarfodydd i'r staff yn ystod sesiynau briffio tîm rheolaidd ac mewn cyfarfodydd ward misol, a rhoddir unrhyw adborth brys i staff drwy e-bost. Dywedwyd wrthym hefyd y gall fod angen i staff sy'n ymwneud â digwyddiadau fynychu diwrnodau astudio, a chânt eu hannog a'u cefnogi gan reolwyr i ysgrifennu cofnod myfyriol, ac maent yn cael cyfle i adrodd yn ôl yn seiliedig ar eu profiad eu hunain mewn cyfarfodydd tîm os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y staff yn cael eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau ar Datix. Dywedwyd wrthym y bu gwelliant o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau dros y flwyddyn ddiwethaf am fod rhestr o ddigwyddiadau y gellir rhoi gwybod amdanynt wedi cael ei datblygu, ac roedd y staff wedi ymgysylltu â'r broses yn llawn, gan gynnwys rhoi gwybod am ddigwyddiadau bach.

Cawsom sgwrs â'r staff a ddisgrifiodd y broses ar gyfer cofnodi digwyddiadau, camgymeriadau neu achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd ar Datix, a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i roi

gwybod am bob digwyddiad. Dywedodd tua chwarter y staff a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod wedi gweld camgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf a allai fod wedi niweidio staff, a dywedodd tua chwarter eu bod wedi gweld camgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau a allai fod wedi niweidio cleifion. Dywedodd yr holl staff a oedd wedi gweld camgymeriadau eu bod wedi rhoi gwybod amdanynt. Dywedodd un aelod o'r staff:

“Y digwyddiad diwethaf y rhoddwyd gwybod amdano oedd mater rheoli heintiau, ac ymdriniwyd â hyn ar unwaith a rhoddwyd camau ar waith er mwyn sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto.”

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod staff sy'n rhan o gamgymeriad, achos y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg ac yn gyfrinachol, ac roedd pawb yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau. Roedd tua chwarter yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r sefydliad yn beio neu'n cosbi pobl a oedd yn gysylltiedig â chamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt digwydd neu ddigwyddiadau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau yn y sefydliad, a'u bod yn cael adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i'r rhain.

Gwelsom fod proses glir a chadarn ar waith ar gyfer adolygu ac ymchwilio i ddigwyddiadau clinigol a'u rheoli. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei oruchwylio gan Bennaeth Llywodraethu cyffredinol y bwrdd iechyd. Os bydd marwolaeth annisgwyl, dywedwyd wrthym fod staff sydd wedi'u hyfforddi ym maes dadansoddiad o wraidd y broblem yn ymchwilio i hyn.

Nododd y tîm arolygu bod cylchlythyr pediatrig misol a oedd wedi cael ei gyflwyno, yn adnodd cyfathrebu rhagorol ar gyfer cyfleu gwybodaeth i staff pediatrig ar draws yr holl wasanaethau pediatrig yn y bwrdd iechyd. Roedd y cylchlythyr yn cynnwys adborth o themâu a nodwyd o ddigwyddiadau, a'i fod yn tynnu sylw at feysydd o arfer da, gwybodaeth hyfforddi, diwrnodau astudio, cynadleddau sydd ar gael i'r staff eu mynychu a newyddion arall yn ymwneud â'r tîm. Roedd gwybodaeth yn ymwneud â dysgu o ddigwyddiadau hefyd yn cael ei harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell staff.

Gwelsom fod gweithgareddau clinigol a chanlyniadau'r cleifion yn cael eu goruchwylio'n dda. Roedd y gwasanaeth yn defnyddio dangosfwrdd pediatrig a oedd wedi cael ei ddatblygu a'i roi ar waith yn ddiweddar. Adnodd electronig yw'r dangosfwrdd i fonitro perfformiad clinigol eu gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu llywodraethu.

Gwnaethom ystyried y gwaith archwilio sy'n cael ei wneud ar y ward, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau hanfodol yn cael eu cyflawni. Cawsom sicrwydd bod goruchwyliaeth ddigonol gan reolwyr y wardiau i fod yn hyderus bod proses gadarn ar waith ar gyfer gweithgareddau archwilio, er mwyn helpu i ddangos bod y gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod yr holl staff a rheolwyr yn ymfalchïo yn y gwasanaeth maent yn ei ddarparu i'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr. Gwelsom reolaeth leol gref hyd at lefel uwch-nyrs. Roedd agwedd yr holl staff yn broffesiynol ac yn groesawgar ac roeddent yn ymgysylltu â'r broses arolygu yn llawn ac yn ei chroesawu. Yn ystod yr arolygiad, aethpwyd i'r afael â phob pryder a godwyd gyda'r rheolwyr am ddiogelwch cleifion ar unwaith. Mae manylion y gwelliannau i'w gweld yn Atodiad A.

Gwelsom fod rheolwyr y ddwy ward yn weladwy ar y wardiau. Gwelsom y staff yn mynd atynt i gael cyngor a chymorth, ac ymatebodd y ddau yn gadarnhaol gan ystyried unrhyw ymholiadau a rhoi cymorth yn ôl y gofyn. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo bod y rheolwr ar y wardiau yn eu cefnogi a'i bod hefyd yn hawdd mynd at yr uwch-reolwyr. Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiaduron fod y sefydliad yn annog gwaith tîm bob amser neu fel arfer. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ei bod yn anodd cael swydd ar Ward Cilgerran neu'r Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig am nad yw'r staff sydd wedi'u cyflogi yno eisoes am adael.

Canmolodd y rheolwyr eu timau a gwnaethant ddweud bod y staff bob amser yn gadarnhaol er gwaethaf yr amgylchedd gwaith gwael. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad nhw eu bod yn cael negeseuon cymysg mewn perthynas â dyfodol datblygiad yr amgylchedd ac ôl-troed y wardiau ac a fydd hynny'n digwydd. Gwnaethant ddweud bod hyn yn cael effaith negyddol ar forâl y staff. Dywedodd y staff hefyd fod y gwaith adeiladu sydd wedi dechrau yn yr ysbyty yn golygu bod llai o olau mewn rhai ardaloedd o'r wardiau, gan gynnwys yr ystafell staff. Gwnaethom drafod hyn â'r uwch-reolwyr a gwnaethom argymhell eu bod yn archwilio sut y gellir gwella prosesau cyfathrebu â'r staff o ran unrhyw waith ailddatblygu posibl ar y wardiau er mwyn rheoli eu disgwyliadau ac er mwyn i'r staff deimlo eu bod yn cael gwybodaeth well am ddyfodol y wardiau.

Dywedodd yr holl staff a'r rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod digon o staff ar y wardiau. Roedd yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig a'r Uned Dibyniaeth Uchel yn cael eu staffio ar wahân i Ward Cilgerran. Gwelsom fod

aciwtedd yn cael ei asesu gan ddefnyddio adnodd aciwtedd Cymru gyfan. Dywedodd y rheolwyr eu bod yn gallu defnyddio staff asiantaeth mewn achosion lle mae angen staff ychwanegol. Gwelsom rota'r staff ac roeddem yn fodlon bod y lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau yn briodol.

Dywedodd y staff nyrsio a'r rheolwyr wrthym fod yr arbenigwyr chwarae yn aelodau hanfodol o dîm y ward a'u bod yn chwarae rôl bwysig a chadarnhaol o ran profiad plentyn yn yr ysbyty. Gwelsom fod y nyrsys chwarae yn treulio amser gwerth chweil gyda'r cleifion, yn annog chwarae ac yn ymgysylltu â'r rhieni ac yn gwrando arnynt. Mae nyrs chwarae ar gael ar y ward rhwng 7am a 7.30pm saith diwrnod yr wythnos. Dywedwyd wrthym hefyd fod y nyrsys chwarae yn mynd at gleifion y mae angen cymorth arnynt yn yr Adran Achosion Brys ac unrhyw unedau therapi, er enghraifft, radiolog.

Gwelsom staff gwirfoddol ar y wardiau hefyd. Gwnaethom siarad â'r rheolwyr a ddywedodd wrthym fod staff gwirfoddol yn cwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁴ a bod nifer y gwirfoddolwyr yn gyfyngedig i dri neu bedwar er mwyn rhoi cysondeb. Mae'r holl wirfoddolwyr yn cwblhau'r hyfforddiant sefydlu corfforaethol ac yn cael taith o amgylch y wardiau ac yn cael eu cyflwyno i'r staff cyn dechrau.

Gwnaethom siarad â'r nyrs ymarfer pediatrig a datblygiad proffesiynol a oedd wedi bod yn y swydd am lai na blwyddyn. Roedd yn frwdfrydig ac yn wybodus am ei rôl a gofynion hyfforddiant y staff. Mae wedi'i lleoli yn ysbyty Glangwili ond mae'n gyfrifol am anghenion hyfforddiant y tîm nyrsio pediatrig aciwt ar draws y bwrdd iechyd, yn ogystal â hyfforddiant penodol ar gyfer pob safle, er enghraifft, hyfforddiant tân. Gwelsom fod amrywiaeth eang o gymorth addysgol ar gael ar gyfer y staff cofrestredig a'r staff anghofrestredig ac roedd ymrwymiad clir o ran sicrhau diogelwch y wardiau a chymhwysedd y staff sy'n darparu gofal.

Gwelsom becyn llwybr sefydlu a gwybodaeth a datblygu sgiliau a ddarperir i staff sydd newydd gymhwyso a nyrsys staff yr uned dibyniaeth uchel bediatrig, gyda mwy o ddatblygiad i aelodau eraill o staff. Mae hyn yn cynnwys portffolio o gymwyseddau a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael.

⁴ Mae gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gofnod o euogfarnau troseddol a rhybuddiadau unigolyn ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom fod proses ar waith ar gyfer monitro presenoldeb y staff a'u cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd yn cael ei wneud ar-lein, fel hyfforddiant ar iechyd a diogelwch a diogelu, a chaiff ei fonitro'n ganolog drwy gofnod staff electronig. Mae'r staff yn cael negeseuon i roi gwybod iddynt pan fydd eu hyfforddiant yn dod i ben er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni terfynau amser.

Dywedwyd wrthym fod diwrnodau datblygu ymarfer yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant pediatrig Band 6 a oedd yn cynnwys rhoi gwybod am ddiwyddiadau, adeiladu tîm, arweinyddiaeth a thrafodaethau ar sut i wella'r gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at gyfathrebu gwell â'r staff yn unedau pediatrig yr ysbytai eraill.

Gwelsom fod y gyfradd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol diogelwch tân lefel 2 yn isel. Dywedwyd wrthym fod hyn oherwydd gofyniad am hyfforddiant penodol, sy'n berthnasol i ôl-troed y wardiau. Dywedwyd wrthym nad oedd adran dân y bwrdd iechyd yn gallu darparu'r hyfforddiant, ac felly roedd y staff wedi bod yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol cyffredinol. Dywedodd y nyrs datblygu ymarfer wrthym fod yr adran dân bellach wedi cytuno i ddarparu hyfforddiant penodol, ond nad oedd wedi ymrwymo i ddyddiadau.

Datgelodd trafodaethau â'r rheolwyr fod system sefydledig ar waith ar gyfer cwblhau arfarniadau ac adolygiadau datblygu personol (PADR). Roedd hynny'n golygu bod system ffurfiol ar waith ar gyfer ystyried a oedd hyfforddiant blaenorol wedi bod yn effeithiol. Roedd arfarniadau hefyd yn cael eu hystyried yn fforwm defnyddiol ar gyfer nodi anghenion hyfforddi'r staff yn y dyfodol. Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael arfarniad blynyddol. Gwelsom fod y gyfradd cydymffurfio ar gyfer cwblhau arfarniadau yn uchel.

Gwnaethom drafod darpariaeth gwasanaethau a chyflenwi staff meddygol â'r cyfarwyddwr clinigol ar gyfer gwasanaethau pediatrig a newyddenedigol, a chawsom sicrwydd bod digon o staff meddygol priodol ar y wardiau. Dywedwyd wrthym y gofynnwyd i'r gwasanaethau pediatrig yn yr ysbyty gynyddu nifer y meddygon dan hyfforddiant o ganlyniad i adborth rhagorol gan hyfforddeion blaenorol.

Gwnaethom siarad ag uwch-reolwyr a ddywedodd wrthym fod gwasanaeth llesiant staff ar gael i'r holl staff yn y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym y gall y staff atgyfeirio eu hunain at yr adran iechyd galwedigaethol os oes angen, neu gall rheolwyr atgyfeirio staff i gael cymorth, er enghraifft yn dilyn digwyddiad gofal critigol neu staff sy'n gweithio yn yr amgylchedd gofal lliniarol. Roedd bron pob un o'r staff a gwblhaodd holiaduron yn cytuno eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael, ac nid oedd neb yn anghytuno. Roedd y rhan

fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod cymorth llawn yn cael ei roi iddynt mewn sefyllfaoedd heriol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod aelodau gofynnol o staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân lefel dau cyfredol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd drws y cwpwrdd glanhau ar Ward Cilgerran wedi'i gloi'n ddiogel. Gallai'r materion hyn beri risg o fynediad anawdurdodedig i sylweddau peryglus i'r cleifion a'r ymwelwyr.	Roedd hyn yn golygu bod risg i'r cleifion ac ymwelwyr o fynediad anawdurdodedig i sylweddau peryglus.	Gwnaethom godi'r pryder hwn gydag un o reolwyr y ward yn ystod yr arolygiad.	Gwnaeth rheolwr y ward ymdrin â hyn ac roedd drws y cwpwrdd glanhau dan glo am weddill yr arolygiad.
Gwelsom ddau droli glanhau a oedd yn cynnwys cyfarpar a sylweddau glanhau wedi'u gadael heb oruchwyliaeth yng nghoridor Ward Cilgerran.	Roedd hyn yn golygu bod risg i'r cleifion ac ymwelwyr o fynediad anawdurdodedig i sylweddau peryglus.	Gwnaethom godi'r pryder hwn gydag un o reolwyr y ward yn ystod yr arolygiad.	Aeth y staff domestig yn ôl at y trolïau glanhau ar unwaith ac ni chawsant eu gadael heb oruchwyliaeth am weddill yr arolygiad.
Gwelsom hefyd fod y cloeon ar ddrws cwpwrdd cyffuriau wedi'u torri. Fodd bynnag, roedd y cyffuriau dan glo yn ddiogel mewn ystafell wedi'i chloi.	Roedd hyn yn golygu bod risg bosibl o ran mynediad anawdurdodedig a risg i ddiogelwch cleifion petai'r ystafell heb ei chloi.	Gwnaethom godi'r pryder hwn gydag un o reolwyr y ward yn ystod yr arolygiad.	Newidiwyd cloeon y cwpwrdd ar unwaith gan aelod o'r tîm ystadau o fewn oriau i gael eu hysbysu yn ystod ein harolygiad.

<p>Gwelsom storfa hefyd lle nad oedd clo ar y cwpwrdd lle roedd hylifau mewnwythiennol yn cael eu storio.</p>	<p>Roedd hyn yn golygu bod risg o ran mynediad anawdurdodedig a risg i ddiogelwch cleifion.</p>	<p>Gwnaethom godi'r pryder hwn gydag un o reolwyr y ward yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Gosodwyd clo cod gwasgu botwm ar y drws.</p>
<p>Gwelsom droli yng nghoridor Ward Cilgerran a oedd heb ei gloi ac a oedd yn cynnwys gwybodaeth sensitif am gleifion. Roedd adegau pan nad oedd staff yn bresennol yn yr ardal oedd hyn.</p>	<p>Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai cleifion neu ymwelwyr â'r wardiau gael gafael ar wybodaeth am gleifion.</p>	<p>Gwnaethom godi'r pryder hwn gydag un o reolwyr y ward yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Symudwyd y troli i ystafell ddiogel dan glo. Cawsom sicrwydd y byddai'r troli yn aros yn yr ystafell dan glo nes bod troli newydd y gellir ei gloi wedi cyrraedd.</p>

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Cyffredinol Glangwili

Ward/adran: Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig a Ward Cilgerran

Dyddiad arolygu: Mawrth 4

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion sicrwydd uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Cyffredinol Glangwili

Ward/adran: Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig a Ward Cilgerran

Dyddiad arolygu: Mawrth 4

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd gyfredol ar gael i gleifion o bob oedran.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae taflenni Hybu Iechyd ar nifer o bynciau i blant a'u teuluoedd/gofalwyr ar gael, ac maent wedi'u harddangos neu ar gael drwy'r fewnwyd. Mae'r rhain yn seiliedig ar raglen dreigl sy'n adlewyrchu unrhyw ymgyrchoedd a digwyddiadau cenedlaethol gweithredol parhaus. Caiff y deunyddiau eu harddangos mewn ardaloedd aros ac ardaloedd cymunedol. Oherwydd y sefyllfa COVID, bydd y staff yn cael gafael ar y rhain i blant a theuluoedd unigol yn ôl y gofyn	Uwch-brif Nyrs Ward Cilgerran / Uwch-brif Nyrs yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y staff yn tynnu'r llenni o amgylch gwelyau cleifion bob amser wrth roi gofal Ystyried sut y gellir cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a'u rhieni/gofalwyr os bydd angen i'r staff gael sgysia sensitif â nhw Ystyried cynllun y wardiau a mynediad i'r ardd awyr agored a'r toiledau a'r cawodydd er mwyn cynnal preifatrwydd y cleifion. 	<p>4.1 Gofal Gydag Urddas</p>	<p>Bydd yr Uwch-dîm Nyrsio yn cyflwyno briff atgyfnerthu i'r tîm ar bwysigrwydd cynnal preifatrwydd ac urddas bob amser. Gwneir hyn drwy'r llwyfan electronig, sef Teams.</p> <p>Bydd yr Uned Triniaeth Ddydd yn prynu Pegiau Llenni Urddas Cleifion ac yn eu rhoi ar waith. Bydd hynny yn ateb effeithiol er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas pan fyddant yn cael eu defnyddio gyda'r llenni sy'n amgylchynu'r gwely. Mae'r pegiau hyn wedi'u cynllunio'n benodol i fod yn gadarn ac yn weladwy.</p> <p>Cyn COVID-19, bu trafodaethau parhaus am amgylchedd Ward Cilgerran â'r tîm ystadau. Unwaith y bydd y pandemig COVID drosodd, caiff cynllun y ward a mynediad i'r ardd awyr agored eu hystyried yn y trafodaethau parhaus â'r rhaglen ystadau a chyfalaf, oherwydd bydd angen ystyried hyn fel rhan o waith adnewyddu cyffredinol Ward Cilgerran.</p>	<p>Uwch-brif Nyrs Ward Cilgerran</p> <p>Uwch-brif Nyrs Ward Cilgerran</p> <p>Rheolwr Uwch-nyrs ar gyfer Sicrhau Ansawdd / Pennaeth Nyrsio ar gyfer Pediatreg a Babanod Newyddenedigol /</p>	<p>Awst 2020</p> <p>Hydref 2020</p> <p>Caiff hyn ei adolygu ar ôl COVID bob chwarter ac adroddir yn ôl ar y wybodaeth yn ystod y cyfarfod</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Rheolwr Gweithrediadau	Ansawdd a Diogelwch Menywod a Phlant.
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod y staff yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chleifion yn gadarnhaol bob amser 	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	<p>Bydd yr uwch-dîm nyrso yn sicrhau gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu parhaus â'r staff ar bwysigrwydd rheoli strategaethau cyfathrebu cadarnhaol i blant sy'n cael triniaeth, y dull camau cadarnhaol a sut i gymhwyso theori at ymarfer.</p> <p>Darperir hyn yn fisol i'r holl staff presennol a staff newydd.</p> <p>Bydd y Nyrs Ymarfer a Datblygiad Proffesiynol Peditrig yn dod o hyd i waith e-ddysgu cyfathrebu i dimau ar fodolau cadarnhaol er mwyn cefnogi plant.</p>	<p>Uwch-brif Nyrs Ward Cilgerran</p> <p>Nyrs Ymarfer a Datblygiad Proffesiynol Peditrig</p>	<p>Cwblhawyd.</p> <p>Rhagfyr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Bod cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael gwybodaeth gyson a chlir am eu triniaeth a'u gofal. 		<p>Roedd yr elfen hon yn ymwneud yn benodol â gwybodaeth i rieni am reolaeth feddygol o ofal. Caiff hyn ei arwain gan yr arweinydd clinigol er mwyn sicrhau y darperir y wybodaeth mewn ffordd glir er mwyn i deuluoedd ddeall ac egluro pam mae angen i gynllun rheoli newid oherwydd cyflwr claf</p>	<p>Arweinydd Clinigol Pediatrig</p>	<p>Awst 2020</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir diweddarau a theilwra'r amgylchedd yn yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig i blant.</p>	<p>6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth</p>	<p>Bydd hyn yn parhau i fod yn rhan o'r drafodaeth barhaus â'r adran ystadau a chyfalaf ar raglen adnewyddu Ward Cilgerran.</p> <p>Unwaith y bydd y cyfnod COVID drosodd, bydd y Rheolwr Chwarae yn sicrhau y caiff yr amgylchedd ei adolygu er mwyn ymgorffori rhai paentiadau a sticeri sydd wedi'u teilwra i blant o bob</p>	<p>Rheolwr ar gyfer Sicrhau Ansawdd / Pennaeth Nyrso ar gyfer Pediatreg a Babanod Newyddenedigol / Rheolwr Gweithrediadau</p> <p>Rheolwr Chwarae</p>	<p>Caiff hyn ei adolygu ar ôl COVID bob chwarter ac adroddir yn ôl ar y wybodaeth yn ystod y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Menywod a Phlant.</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		oedran a bydd cornel chwarae yn cael ei chreu; mae wedi cyrraedd ac yn cael ei storio.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried lleoliad yr ystafell enfys ar y ward.	6.2 Hawliau pobl	Caiff trafodaethau eu hystyried â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar leoliad a mynediad i'r uned hon yn seiliedig ar ôl-troed Ward Cilgerran, gan gynnwys anghenion y plant a'r bobl ifanc	Pennaeth Nyrsio ar gyfer Peditreg a Babanod Newyddenedigol / Pennaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed	Ionawr 2021
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Mae rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystyried darparu ardal storio ychwanegol 	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae hyn wedi'i raglennu yn unol â gwaith cam 2 gyda'r adran ystadau er mwyn ailadeiladu'r cyfleusterau storio ar gyfer yr uned	Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau / Rheolwr Cynorthwyol Datblygu Cyfalaf Mawr	Mawrth 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y caiff teils a seliau yr ystafell ymolchi a'r lloriau anwastad ar y wardiau eu hatgyweirio neu bod rhai newydd yn cael eu gosod er mwyn sicrhau y gellir eu glanhau'n effeithiol. Ystyried darparu golchfa ychwanegol Parhau i nodi, monitro a gweithredu ar y risgiau a achosir gan yr amgylchedd gwael Bod gwelyau tynnu allan yn cael eu gosod yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi ar y ddwy ward. 		<p>Trafodaeth barhaus â rhaglen ystadau a chyfalaf y safle o ran gwaith amgylcheddol cyfleusterau. Mae hyn ar y gofrestr risg ar hyn o bryd ac yn cael ei fonitro'n agos yng nghyfarfodydd y gyfarwyddiaeth a chyfarfodydd ar y safle</p> <p>Trafodaethau parhaus â'r adran ystadau o ran adnewyddu'r uned a chaiff hyn ei gynnwys yn y trafodaethau hynny</p> <p>Trafodaeth barhaus â'r rhaglen ystadau a chyfalaf, a gaiff ei monitro'n fisol mewn archwiliadau ar y ward</p> <p>Defnyddiwyd cyllid elusenol i brynu gwelyau tynnu allan, mae'r rhain bellach ar waith</p>	<p>Rheolwr Uwch-nyrs ar gyfer Sicrhau Ansawdd / Pennaeth Nyrsio ar gyfer Peditreg a Babanod Newyddenedigol / Rheolwr Gweithrediadau</p> <p>Uwch-brif Nyrs Ward Cilgerran</p>	<p>Caiff hyn ei adolygu ar ôl COVID bob deufis ac adroddir yn ôl ar y wybodaeth yn ystod y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Menywod a Phlant.</p> <p>Cwblhawyd</p>
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod darparu ystafell storio a pharatoi cyffuriau	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Trafodaethau parhaus â'r adran ystadau o ran adnewyddu'r uned a chaiff hyn ei	Rheolwr Uwch-nyrs ar gyfer Sicrhau Ansawdd / Pennaeth Nyrsio	Mae hyn wedi ei gwblhau dros dro. Fodd bynnag,

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
pwrpasol yn yr Uned Triniaeth Ddydd Bediatrig yn cael ei ystyried.		gynnwys yn y cynlluniau tymor hwy ar gyfer adnewyddu Ward Cilgerran	ar gyfer Pediatreg a Babanod Newyddenedigol / Rheolwr Gweithrediadau	bydd angen ailystyried hyn ar ôl COVID ac adroddir yn ôl ar y wybodaeth bob deufis yn ystod y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Menywod a Phlant
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau gofynnol o staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân lefel dau cyfredol.	7.1 Y Gweithlu	Hyfforddiant gloywi parhaus i staff yn unol â hyfforddiant tân e-ddysgu gorfodol. Hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i ohirio ar hyn o bryd oherwydd COVID,	Nyrs Ymarfer a Datblygiad Proffesiynol Pediatrig	Cwblhawyd Awst 2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ystyried e-ddysgu neu lwyfannau electronig er mwyn rhoi hyfforddiant	Swyddog Tân ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Paula Evans

Teitl swydd: Pennaeth Nyrsio

Dyddiad: 15 Gorffennaf 2020